



# AWTTC

All Wales Therapeutics & Toxicology Centre  
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

# In Focus

Gaeaf 2023 - Rhifyn 24

## Cylchlythyr Gaeaf AWTTC

Diweddariad chwarterol ar y newyddion, cyhoeddiadau ac adnoddau diweddaraf.

Yn y rhifyn hwn

Newyddion Hydref - Rhagfyr 2023 gan:

- Gwasanaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau (PAMS)**  
Cefnogi arfarniadau technoleg iechyd, asesiadau meddyginiaethau Cymru'n Un a sicrhau ansawdd allbynnau IPFR.
- Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU)**  
Datblygu Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol a dadansoddi ac adrodd ar ddata defnydd meddyginiaethau.
- Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU)**  
Darparu cyngor 24 awr y dydd ar wenwynau i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.
- Canolfan Cerdyn Melyn (YCC) Cymru**  
Monitro adweithiau andwyol i feddyginiaethau.



**AWTTC**

All Wales Therapeutics & Toxicology Centre  
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

### Newyddion diweddaraf gan Grŵp er budd Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) AWMSG

Estynnir gwahoddiad agored i aelodau'r cyhoedd ddysgu mwy am waith AWMSG a chymryd rhan. Roedd cyflwyniadau o gyfarfod PAPIG mis Hydref yn cynnwys heintiau *Clostridioides difficile* ( *C. difficile* ) yng Nghymru, diogelwch meddyginiaethau llysiuol a strategaeth 5 mlynedd newydd Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG). Gallwch ddal i fyny ar y cyfarfod gan fod fideos o'r cyflwyniadau ar gael i'w gweld ar-lein a gadewch i ni wybod os ydych am fynychu'r cyfarfod nesaf ar 27 Chwefror.

[Darllenwch ragor yma.](#)



**AWTTC**

All Wales Therapeutics & Toxicology Centre  
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

### AWMSG yn cymeradwyo 'Datgarboneiddio: rhagnodi, defnyddio a gwaredu anadlyddion 2023-2030 Strategaeth Genedlaethol Cymru'

Mae'r strategaeth yn nodi'r camau uchelgeisiol y bydd angen i GIG Cymru a'i bartneriaid eu cymryd i leihau effaith carbon anadlyddion yng Nghymru. Darllenwch sut y gallwn gyfrannu at gyflawni sero net cyfunol erbyn 2030 drwy newid y ffyrdd y caiff cyflyrau anadlol eu diagnosis, a'r ffyrdd y caiff anadlyddion eu rhagnodi mewn gofal sylfaenol, eu defnyddio a'u gwaredu.

[Darllenwch ragor yma.](#)



**AWTTC**

All Wales Therapeutics & Toxicology Centre  
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## AWMSG yn cymeradwyo strategaeth 'Tynnu contract desfflwrn cenedlaethol yng Nghymru yn ôl'

Nwy anesthetig yw desfflwrn a ddefnyddir yn gyffredin wrth gynnal llawdriniaeth. Mae ganddo ôl troed carbon uchel ac mae'n niweidiol i'r amgylchedd. Drwy ei atal rhag cael ei ddefnyddio yn ysbytai Cymru bydd yn helpu GIG Cymru i gyrraedd ei darged o sero net erbyn 2030.

[Darllenwch ragor yma.](#)



**AWTTC**

All Wales Therapeutics & Toxicology Centre  
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## AWMSG yn ymgynghori ar Strategaeth Feddyginiaethau newydd i Gymru: 2024-2029

Mae AWTTC wedi bod yn helpu AWMSG i ddatblygu eu strategaeth pum mlynedd nesaf ar gyfer 2024-2029 sy'n anelu at wneud cynnydd sylweddol mewn ystod eang o amcanion sydd wedi'u grwpio o dan wyth nod. Galwodd AWMSG ar ystod eang o sefydliadau sydd i gyd yn effeithio ar GIG Cymru i gydweithio i gyrraedd y nodau cyffredin hyn. Cafodd ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried gan AWMSG yn eu cyfarfod ym mis Rhagfyr a'r targed yw cyhoeddi'r strategaeth ym mis Mawrth.

[Bydd cofnodion y cyfarfod ar-lein yn fuan.](#)



**AWTTC**

All Wales Therapeutics & Toxicology Centre  
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Fideos Diwrnod Arfer Gorau 2023 ar gael nawr

AWTTC yn cynnal Diwrnod Arfer Gorau blynyddol i hyrwyddo a hwyluso rhannu gwybodaeth er mwyn gwella arferion rhagnodi yng Nghymru. Mynychwyd y digwyddiad, a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf, gan dros 90 o gynrychiolwyr gyda chynrychiolaeth o bob bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae fideos o rai o'r cyflwyniadau bellach ar gael i'w gweld ar ein gwefan ac mae deciau sleidiau ar gyfer rhai o'r cyflwyniadau eraill ar gael i'w lawrlwytho.

[Darllenwch ragor yma.](#)



**AWTTC**

All Wales Therapeutics & Toxicology Centre  
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Diweddariadau i 'Ganllawiau Rheoli a Phresgripsiynu COPD Cymru Gyfan'

Mae mân newidiadau wedi'u gwneud i'r canllawiau hyn sydd bellach yn argymhell therapi triphlyg llinell gyntaf i rai cleifion ac opsiynau anadlyddion wedi'u diweddarau ar gyfer rheoli cyflyrau sy'n gwaethygu.

[Darllenwch ragor yma.](#)



## AWTTC yn cefnogi Baobab Bach – pantri cymunedol yn y Barri

Gwnaeth staff AWTTC gyfrannu rhodd bwyd i Bantri Baobab Bach y Barri i gefnogi teuluoedd lleol y Nadolig hwn.

Mae Baobab Bach yn gweithio gyda chymunedau i helpu i leihau gwastraff bwyd a darparu bwyd fforddiadwy a chymorth lles i bobl yr ardal.

Ers agor yn 2020 mae'r prosiect, sydd bellach â 15 pantri yn Ne Cymru, wedi darparu miloedd o fagiâu o fwyd, wedi helpu i fwydo llawer o deuluoedd ac wedi arbed tunelli o fwyd rhag mynd i safleoedd tirlenwi.

“Roeddem yn falch iawn o dderbyn rhodd garedig gan dîm AWTTC y Nadolig hwn. “Gwnaeth y bwyd a roddwyd helpu i ddod â llawenydd y tymor i'n haelodau, hen ac ifanc,” meddai Joe Ferris, Pantri CIC Baobab Bach y Barri.



### AWTTC yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR) 2022-2023

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu gwaith y timau IPFR wrth helpu cleifion i gael mynediad at driniaethau nad ydynt ar gael fel mater o drefn yn GIG Cymru.

[Darllenwch ragor yma.](#)

### Cyngor interim Cymru'n Un: Adalimumab

Mae cyngor interim ar adalimumab ar gyfer trin cleifion pediatrig sydd ag achosion difrifol, anheintus o wfeitis canolradd, cefn y llygad a'r llygad cyfan wedi'i adolygu gan Grŵp Asesu Meddyginiaethau Cymru'n Un a'i gefnogi gan AWMSG.

[Darllenwch ragor yma.](#)

### Cyngor interim Cymru'n Un: Vonicog alfa

Mae cyngor interim ar vonicog alfa ar gyfer triniaeth ar alw ar gyfer pyliau gwaedu anlwfeddygol a llawfeddygol (dewisol a brys) mewn plant hyd at 17 oed sydd â chlefyd von Willebrand wedi'i adolygu gan Grŵp Asesu Meddyginiaethau Cymru'n Un a'i gefnogi gan AWMSG.

[Darllenwch ragor yma.](#)



**PAMS**  
Patient Access to Medicines Service  
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## AWTTC yn cynnal Diwrnod Agored y Diwydiant Fferyllol

Cynhaliodd AWTTC Ddiwrnod Agored ar 30 Tachwedd yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd yng Nghaerdydd gyda'r nod o rannu gwybodaeth a meithrin ymgysylltiad effeithiol â'r diwydiant fferyllol.

Gwnaeth cyflwyniadau'r bore baratoi'r ffordd ar gyfer sesiynau rhwydweithio'r prynhawn a ysgogodd drafodaeth ddyfnach ar y pynciau a gyflwynwyd. Mae adnoddau nawr ar-lein, os hoffech chi ddal i fyny ar y diwrnod.

[Darllenwch ragor yma.](#)



**WAPSU**  
Welsh Analytical Prescribing Support Unit  
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

### Fersiynau diweddaraf o 'adroddiadau ôl-troed carbon anadlyddion GIG Cymru' ac 'adroddiadau cyfnodau rhagnodi GIG Cymru' wedi'u cyhoeddi

Mae AWTTC yn cynhyrchu adroddiadau misol sy'n darparu crynodeb byr o rai o'r metrigau allweddol a ddarperir o fewn dangosfyrddau SPIRA ar gyfer 'datgarboneiddio anadlyddion' a 'chlyfnodau rhagnodi'.

[Darllenwch ragor yma.](#)



**WAPSU**  
Welsh Analytical Prescribing Support Unit  
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

### Cyhoeddi dangosfyrddau SPIRA newydd

Dyma'r dangosfyrddau monitro data newydd sydd wedi'u hychwanegu at SPIRA y gall defnyddwyr sydd ar rwydwaith GIG Cymru eu cyrchu:

- Effeithlonrwydd - Gwerth isel ar gyfer rhagnodi data atodol
- Effeithlonrwydd - Offeryn newid Apixaban
- Dangosfwrdd Desfflwrn

[Cyrchwch y dangosfyrddau yma.](#)



**WAPSU**  
Welsh Analytical Prescribing Support Unit  
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

### Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2023-2024: Dadansoddiad o ddata presgripsiynu hyd at Mehefin 2023

Mae adroddiad y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPI), sy'n dadansoddi data ar gyfer y chwarter sy'n dod i ben ym mis Mehefin 2023, wedi'i gyhoeddi.

[Darllenwch ragor yma.](#)

**WNP**  
Welsh National Poisons Unit  
Uned Gwenwynau Cenedlaethol C

## Cwrs Tocsicoleg Feddygol 2023

Yn ddiweddar, cynhaliodd Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNP) gwrs Gwenwyneg Feddygol deuddydd yng Nghaerdydd. Gwnaeth y digwyddiad roi cyfle i weithwyr proffesiynol y GIG a gweithwyr gofal iechyd eraill ddatblygu eu gwybodaeth am sut i reoli achosion o wenwyno, yn ogystal â rhoi cyfle i newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn ddeall materion cyfoes ym maes gwenwyneg feddygol.

[Darllenwch ragor yma.](#)

**WNP**  
Welsh National Poisons Unit  
Uned Gwenwynau Cenedl

## Cynhadledd 10<sup>fed</sup> Pen-blwydd Cyffuriau Newydd ac Adnabod Sylweddau Newydd Cymru (WEDINOS)

WEDINOS yw'r rhaglen gwirio cyffuriau cyhoeddus fwyaf yn y DU ac mae'n rhan hanfodol o'r strategaeth i leihau niwed cyffuriau yng Nghymru. Roedd staff Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNP) yn gallu mynychu'r gynhadledd 10fed pen-blwydd a chefnogi eu cydweithwyr yn WEDINOS.

[Darllenwch ragor yma.](#)

**WNP**  
Welsh National Poisons Unit  
Uned Gwenwynau Cenedlaethol C

## Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau, 2022-23

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau (NPIS) ei adroddiad blynyddol, yn crynhoi gweithgareddau'r gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn. Yn ystod 2022-23, derbyniodd a darparodd yr NPIS gyngor ar gyfer 38,700 o ymholiadau ffôn. Roedd y mwyafrif o'r rhain gan ddarparwyr cyngor y GIG, ymatebwyr sylfaenol ac ysbytai; o'r rhain roedd 2,140 o ymholiadau difrifol a mwy cymhleth yn cynnwys cael trafodaeth gyda gwenwynegydd ymgynghorol yr NPIS a chael cyngor ganddynt.

[Darllenwch ragor yma.](#)



## Adroddiad Blynyddol Canolfan Cerdyn Melyn Cymru 2022/23

Adroddiad Blynyddol Canolfan Cerdyn Melyn Cymru 2022/23  
Mae'r adroddiad yn manylu ar dueddiadau o ran adroddiadau Cerdyn Melyn ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys cyfanswm yr adroddiadau, adroddiadau fesul Bwrdd Iechyd, adroddiadau yn ôl proffesiwn a'r 10 meddyginiaeth yr adroddwyd amdanynt fwyaf.

[Darllenwch ragor yma.](#)



## Uchafbwyntiau #Wythnos Diogelwch Meddyginiaeth 2023

Mae'r ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael ei chynnal yn flynyddol ym mis Tachwedd a'i nod yw annog pobl i roi gwybod am sgil-ffeithiau a amheuir. I gefnogi'r ymgyrch, darparwyd adnoddau hyrwyddo yn Gymraeg a Saesneg i'w defnyddio mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb ac i'w rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys tri fideo animeiddiedig newydd.

[Darllenwch ragor yma.](#)



## Ydych chi wedi clywed am Ganolfan Cerdyn Melyn Cymru ar Radio Ysbyty Morgannwg?

Yn ddiweddar, bu YCC Cymru yn cydweithio â Radio Ysbyty Morgannwg i gynhyrchu jingl ar gyfer y radio yn hysbysu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd am adroddiadau Cerdyn Melyn ar gyfer meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol.

[Darllenwch ragor yma.](#)



## Diwrnod Diogelwch Cleifion y Byd 2023

Trefnwyd digwyddiadau gan Hyrwyddwyr y Cerdyn Melyn, yn cwmpasu pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru ac mewn 17 o leoliadau i gyd. Roedd y gweithgareddau hyrwyddo yn cynnwys stondinau gydag addurniadau melyn, taflenni Cerdyn Melyn, nwyddau a hyd yn oed bwyd ar y thema melyn!

[Darllenwch ragor yma.](#)



Cofrestrwch i dderbyn cylchlythyrau'r dyfodol a darllenwch ein cylchlythyrau blaenorol ar wefan AWTTC.

I ddarllen newyddion diweddaraf AWTTC dilynwch: [@AWTTCcomms](#) | [@AWTTCcymraeg](#)

I roi adborth neu i ymuno â rhestr bostio AWTTC, e-bostiwch: [awttc@wales.nhs.uk](mailto:awttc@wales.nhs.uk)